Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 1:
Beth sy'n mynd ymlaen yn lleol?

Amcan dysgu

Rhoi cyfle i blant ymchwilio i'r amrywiaeth o swyddi yn eu hardal nhw a'u helpu i ddechrau deall pobl a lleoedd, a'r gwaith mae pobl yn ei wneud.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Trefniadaeth

- Cyfathrebu
- Ymchwil - deall yr amgylchedd

Gweithgareddau dysgu

Defnyddiwch sioe sleidiau/cyflwyniad PowerPoint i ddangos pobl yn gwneud gwahanol fathau o swyddi. Dyma gyfle da i herio stereoteipio'r rhywiau a hybu cydraddoldeb y rhywiau.

Am bob delwedd, gofynnwch i'r disgyblion drafod ac enwi'r swydd a ble mae'r person yn gweithio.

Gwahoddwch bobl i mewn i'r dosbarth e.e. swyddog cyswllt ysgolion yr heddlu, nyrs yr ysgol, ymladdwr tân i'r disgyblion gael gofyn cwestiynau am swydd yr ymwelydd.

Ymwelwch â'r stryd fawr leol i'r disgyblion weld a chofnodi pobl yn gwneud swyddi gwahanol.

Gwnewch gynllun/model syml o'r ardal leol i ddangos ble mae pobl yn gweithio a'r mathau o swyddi maen nhw'n eu gwneud.

Gweithgaredd 1:
Beth sy'n mynd ymlaen yn lleol?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu adnabod gwahanol fathau o waith mae pobl yn ei wneud yn eu hardal leol.

Adnoddau mae eu hangen

- Map o'r ardal leol
- Camera digidol
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol
- Deunyddiau celf

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- Datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth y rolau mae pobl yn eu chwarae mewn grwpiau a chymunedau gwahanol.
- Dechrau cwestiynu stereoteipio.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Gwrando;
- Cydweithredu a thrafod.

3. Cwricwlwm Cymreig

Syniadau Mawr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government